# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 5 Mai 2004

## Cynigion a gyflwynwyd ar 27 Ebrill 2004

**Dadl Fer**

**NDM1943 Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Trechu Hiliaeth yn Etholiadau Mis Mehefin.

**NDM1941 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn cadarnhau polisi Llywodraeth y Cynulliad o gyfyngu ar dyfu cnydau GM cyhyd ag y bo hynny'n gydnaws â deddfwriaeth y DU a'r UE.

**NDM1942 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi â chymeradwyaeth gyflwyno Cynllun yr Ail Gynnig ar 1 Ebrill 2004;

2. Yn croesawu llwyddiant y gwaith paratoi a wnaed rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2004;

3. Yn cydnabod bod y cynllun yn un o amryw o fesurau a fydd yn peri bod amseroedd aros yn gostwng yn raddol yng Nghymru.

*Mae'r ddogfen Improving Patient Access - 2nd Offer Scheme - WHC (2004) 015 ar gael drwy glicio isod: http://assembly/health/Key-Publications/Circulars/2004/whc-2004-015-e.pdf*

*Mae Improving Patient Access - 2nd Offer Scheme – Additional Information to WHC (2004) 015 - WHC (2004) 027 ar gael drwy glicio isod: http://assembly/health/Key-Publications/Circulars/2004/whc-2004-027-e.pdf*

## *Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 28 Ebrill 2004*

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1941**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'polisi Llywodraeth y Cynulliad' ac yn ei le rhoi 'ei bolisi'

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn y llinell gyntaf, ychwanegu ‘cyfreithlon llawn’ ar ôl ‘cyfyngu’.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth sy'n dilyn 'GM'.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i barhau i hyrwyddo'r polisi hwn mor frwd ag y bo modd.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth y DU yn San Steffan yn cytuno â'r agwedd gyfyngol hon.

**NDM1942**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' ac yn ei le rhoi:

Yn nodi cyflwyno Cynllun yr Ail Gynnig ar 2 Ebrill 2004 fel ymdrech hwyr gan Lywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag amserau aros sy'n gwaethygu, ac yn cydnabod methiant Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni'r addewid a wnaeth yn etholiad 1999 i fyrhau amserau aros.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'â chymeradwyaeth gyflwyno', ac yn ei le rhoi 'cyflwyno'.

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu'r cwbl sydd ym mhwyntiau 2 a 3.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn condemnio methiant y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi torri'r ymrwymiad a wnaeth yn ei maniffesto i leihau rhestrau aros.'

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Nodi bod dros 10% o boblogaeth Cymru ar restrau aros y GIG.'

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn nodi mai nifer y cleifion a oedd ar restr aros y GIG cyn i'r Gweinidog ddod i'w swydd ym 1999 oedd 217,266, a'i fod bellach yn 294,243.'

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn nodi mai cyfanswm y cleifion a oedd ar restr aros yng Nghymru ym mlwyddyn ddiwethaf Llywodraeth Geidwadol, ym 1997, oedd 168,917 a nodi ymhellach bod y ffigur hwnnw wedi codi i 294,243 erbyn heddiw.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 29 Ebrill 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1941**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd cynnig:

Yn cymeradwyo canfyddiadau’r drafodaeth gyhoeddus ar gnydau GM ac yn cydnabod ei dylanwad ar benderfyniad Bayer i roi’r gorau i’w ymdrechion i fasnacheiddio indrawn Chardon LL.

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd cynnig:

Yn croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r sector bwyd organig ac yn pwyso am weld cynhyrchion GM yn cael eu labelu yn fwy trylwyr ac eglur. Yn benodol, y dylid labelu cig a chynnyrch eraill anifeiliaid a fu'n bwyta porthiant GM ac y dylid lleihau'r trothwy ar gyfer halogiad GM mewn cynnyrch nad yw'n gynnyrch GM i 0.1%.

**NDM1942**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 3 a'i newid gyda:

Yn gresynu at fethiant y Gweinidog i gyhoeddi ymateb strategol i adroddiad Wanless, bron i flwyddyn ar ôl ei gyhoeddi ac yn credu mai dim ond ymateb strategol o'r fath fyddai'n peri gostyngiad cynaliadwy hirdymor i amseroedd aros yn GIG Cymru.